

# Troi dyhead yn realiti

Gofynion DYFODOL I'R IAITH  
ar gyfer Senedd Cymru  
2021-2026

DYFODOL



© Dyfodol i'r laith, Tachwedd 2020  
Dylunio ac argraffu: Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion

Cyhoeddwyd gan Dyfodol i'r laith  
Blwch Post 180, Caerfyrddin SA31 9EN

[post@dyfodol.net](mailto:post@dyfodol.net)  
**[www.dyfodol.net](http://www.dyfodol.net)**

## 1 Bwriadau Da

Roedd cyhoeddi targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ddatganiad chwyldroadol. Y bwriad o hyn ymlaen, meddai Llywodraeth Cymru, fyddai cychwyn proses o adfer y Gymraeg yn iaith genedlaethol. Ac nid miliwn o bobl yn meddu ar **wybodaeth** o'r Gymraeg yn unig oedd y bwriad, ond cynnydd cyson yn nifer y bobl a fyddai'n **defnyddio** r iaith o ddydd i ddydd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Mae DYFODOL I'R IAITH yn croesawu hyn oll, ac yn enwedig y consensws trawsbleidiol a gafwyd o blaid y bwriad.

Y cwestiwn allweddol, wrth i etholiad Mai 2021 agosáu, yw sut y mae **troi'r dyhead yn realiti a'r bwriad da yn broses effeithiol** a fydd yn sicrhau ei gyflawni. Y term technegol ar broses felly, a roddwyd ar waith yn effeithiol gan, er enghraifft, Lywodraeth Euskadi, gwlad y Basgiaid, yw "gwrthdroi shifft iaith". Bydd ethol llywodraeth newydd Cymru, o ba liw gwleidyddol bynnag, ym Mai 2021 yn gyfle hanesyddol i roi momentwm newydd yn y broses, y gwnaed llawer eisoes i'w roi ar waith.

## 2 Cynllunio Cyfannol

Dros y blynyddoedd diwethaf, pwysleisiwyd yn gynyddol bod a wnelo polisi i gryfhau lle'r

Gymraeg â llawer mwy na gwarchod hawliau ei siaradwyr, er pwysiced hynny. Er mwyn datblygu'r Gymraeg a helaethu'i defnydd yn wyneb pwysau aruthrol y Saesneg, iaith ryngwladol hynod o nerthol, yr hyn sydd ei angen yw **cynllunio cyfannol, strategaeth greadigol gynhwysfawr ar draws pob maes polisi**.

## 3 Lledaenu deall dwyieithrwydd ac ymwybyddiaeth iaith

Wrth greu gwlad o siaradwyr Cymraeg, mae angen deall sut mae iaith yn cael ei defnyddio gan siaradwyr a beth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar ddewisiadau ieithyddol pobl a phoblogaethau.

Mae corff enfawr o waith ymchwil ar gael ynghylch y maes hwn a dylid tynnu arno. Cam cyntaf angenrheidiol fyddai i Prosiect 2050 lunio neu gomisiynu crynhoad o wersi'r ymchwil yma a'i ddefnyddio wrth lunio polisi a strategaeth. Byddai dealltwriaeth o ddwyieithrwydd wedyn yn cael ei raeadru i lawr drwy sefydliadau a rhwydweithiau o bob math: o gylchoedd meithrin i swyddfeydd llywodraeth, o brifysgolion i siopau, o fusnesau preifat i ganolfannau celf a hamdden. Byddai'r deunydd a gynhyrchid yn cynnwys, ymhlith pethau eraill,

- Pwysigrwydd iaith yn hanes dynolryw
- Arwyddocâd y Gymraeg yn hanes Cymru a'i hunaniaeth
- Rhyfeddod a chyfaredd iaith fel y cyfryw a chyfoeth yr iaith Gymraeg yn arbennig
- Seiliau cymdeithasol iaith
- Canllawiau ynghylch normaleiddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd dwy/amlieithog
- Manteision gwybyddol, cymdeithasol a gyrfaol dwyieithrwydd i'r unigolyn

Dylai cwrs/cyrsiau am Ddeall Dwyieithrwydd fod yn rhan o gwricwlwm craidd ein hysgolion ac ymwybod â phwysigrwydd y Gymraeg yn rhan annatod o brofiad ein plant a'n pobl ifainc gydol eu gyrfa addysgol.

Er mwyn adnewyddu gwybodaeth am ddwyieithrwydd a sefyllfa'r Gymraeg yn barhaus, dylid sefydlu Athrofa Ieithyddiaeth Genedlaethol yn ganolfan rhagoriaeth ag iddi fri byd-eang.

A symudoledd pobl yn agwedd mor gyfarwydd ar fywyd ein hoes ni, rhaid cydnabod y Gymraeg yn iaith i'w hyrwyddo ymysg mewnddyfodiaid.

## 4 *Y Meysydd Polisi*

Mae'r meysydd sy'n dylanwadu ar y Gymraeg ar hyn o bryd yn perthyn i wahanol adrannau o'r Llywodraeth, ac yn destun gwahanol ddeddfau. Mae rhai meysydd yn dal i ddibynnu ar Lywodraeth Llundain i gael parhad cynllunio a gweithredu. Mae angen Corff Cynllunio Iaith Cenedlaethol a fydd yn cydlynu'r cynllunio mewn gwahanol feysydd.

## Addysg

Mae ehangu addysg Gymraeg yn amod twf yr iaith. Mae angen cyflymu'r twf, ond er mwyn gwneud hyn mae angen rhaglen drylwyr o hyfforddiant iaith i athrawon, darpar athrawon ac arweinwyr cylchoedd y sector cyn-ysgol, addysg bellach ac uwch.

### Cael gweithlu digonol:

- Cynyddu cymhelliant ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch astudio yng Nghymru
- Ysbrydoli disgyblion cyfrwng Gymraeg i ddilyn gyrfa yn y maes addysg
- Cynyddu hyfforddiant iaith-Gymraeg i staff ysgolion Saesneg
- Cynyddu hyfforddiant iaith-Gymraeg i arweinwyr cylchoedd y sector cyn-ysgol

### Gweld twf cyflymach addysg Gymraeg:

- Sbarduno cynnydd cylchoedd cyn-ysgol Gymraeg, sylfaen y system addysg statudol
- Trefnu system gadarn o addysg drochi yn y Gymraeg i blant o dan 7 oed.
- Cryfhau annog addysg Gymraeg ymysg darpar rieni a rhieni newydd
- Cyflymu trefn ysgolion trosiannol, fel bod ysgolion Saesneg / dwyieithog yn trosi i fod yn ysgolion Gymraeg
- Aildrefnu adeiladau mewn ardaloedd trefol, fel bod ysgolion Gymraeg newydd yn cychwyn heb gost cyfalaf

## **Pwyslais ar ddefnydd llafar o'r Gymraeg**

- Rhagor o gymorth i rieni i ddysgu'r Gymraeg
- Cyflwyno rhaglen drylwyr o ymwybyddiaeth iaith yn y cwricwlwm
- Cyflwyno cwricwlwm hanes Cymru sy'n crynhoi perthynas hanes Cymru a'r iaith
- Rhoi pwyslais cynyddol ar ddysgu pynciau trwy'r Gymraeg ar draws y gyfundrefn addysg
- Cefnogaeth ariannol i weithgareddau allgyrsiol Cymraeg

## **Sicrhau dilyniant rhwng y sectorau addysg**

- Dysgu'r Gymraeg fel un iaith; bydd hyn yn cryfhau dilyniant iaith rhwng pob sector addysg
- Dileu tâl cludiant i addysg 16+

## **Y sector Saesneg**

- Annog trefn ysgolion trawsnewidiol
- Pwyslais ar gyfathrebu bob dydd
- Cynyddu nifer pynciau trwy'r Gymraeg, e.e. addysg gorfforol a chwaraeon, a chynnal gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg

## **Addysg uwch ac addysg bellach**

- Cryfhau darpariaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sectorau addysg bellach ac uwch
- Pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyrsiau addysg bellach sy'n cynnwys ymwneud â chwsmeriaid a darparu gwasanaethau cyhoeddus

- Sefydlu system dracio cyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg i hyrwyddo creu gweithlu Cymraeg

## **Cymraeg i Oedolion**

Mae ehangu Cymraeg i Oedolion yn hanfodol er mwyn dysgu'r iaith i rieni, i swyddogion cyhoeddus, ac i greu gweithlu dwyieithog. Mae angen dysgu'r iaith trwy raglenni dwys a chyflawn.

Mae angen treblu'r cyllid i Gymraeg i Oedolion, fel bod y cyllid yn cyfateb i esiampl lwyddiannus Gwlad y Basgiaid, er mwyn:

- Rhoi blaenoriaeth hyfforddiant iaith i athrawon a gweithwyr cyhoeddus
- Rhoi hyfforddiant iaith i rieni sydd am ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref
- Cynyddu rhaglenni rhyddau o'r gwaith i ddysgu'r iaith a gwella sgiliau iaith
- Cynnig cyrsiau dwys dros flwyddyn a chynnig hyd at 1,200 o oriau cyswllt

## **Cymunedau'r Gymraeg**

Nid yw iaith yn iaith fyw heb gymunedau sy'n ei defnyddio'n iaith gyntaf, boed y rheiny'n gymunedau daearyddol neu rwydweithiol neu sefydliadol. Wrth ystyried bywyd unigolion dwyieithog, mae angen cynyddu'r meysydd yn eu bywyd lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Gall hyn fod yn y cartref, yn y gwaith, yn y gymuned leol, ar y cyfryngau cymdeithasol, ym myd diwylliant a'r cyfryngau ac ati.

Mae bygythiadau economaidd a demograffig sylweddol i gymunedau Cymraeg ardaloedd twristaidd, ac mae'r Gymraeg wedi colli ei lle yn rhwydweithiau cymdeithasol ardaloedd llai dwys eu Cymraeg.

Mae angen rhoi sylw i'r canlynol, ymysg meysydd eraill:

- Ysbrydoli darpar rieni a rhieni ifainc i defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant
- Rhaglen economaidd sylweddol i gryfhau cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith
- Rhaglen o Gymreigio cyson i ardaloedd lle mae 25% o'r boblogaeth yn siarad yr iaith
- Annog y defnydd o'r iaith mewn busnesau lleol a mannau cymdeithasu ar y stryd fawr
- Sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg fydd yn bwerdai i'r iaith

## Economi Ffyniannus

Mae cysylltiad iaith ac economi'n ddyrys, ac nid oes modd rheoli'n fanwl. Fodd bynnag, mae angen creu mewn ardaloedd dwys eu Cymraeg gyffro economaidd fydd yn gallu peri bod gan siaradwyr Cymraeg gyfleoedd gwaith atyniadol.

- Creu cynllun economaidd fydd yn bywiogi ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, sef Cynllun Arfor
- Canolfannau twf mewn ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg
- Creu Asiantaeth Busnes Cymraeg i weithredu ar draws Cymru
- Datganoli sefydliadau cenedlaethol i ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg
- Hyrwyddo polisi caffael lleol

## Gweithleoedd Cymraeg

Un sialens fawr nad yw'n cael ei hateb yn ddigonol yw datblygu gweithleoedd Cymraeg. Credwn fod y sector cyhoeddus yn faes allweddol ond mae angen sylw hefyd i'r trydydd sector a'r sector preifat. Mae angen symud y pwyslais o hawliau ieithyddol at greu gweithleoedd fydd yn rhoi gwerth economaidd gwirioneddol i'r Gymraeg.

- Casglu data ar weithleoedd cyhoeddus Cymraeg
- Gosod cwota penodol i gynyddu gweinyddu trwy'r Gymraeg
- Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i weinyddu'n fewnol trwy'r Gymraeg, fel Gwynedd
- Gosod targedau i siroedd eraill
- Cymathu lleiafrifoedd ethnig i raglen dysgu iaith a gweithio trwy'r Gymraeg

## Sicrhau tirwedd ieithyddol Gymraeg

Mae angen mwy na chynnig gwasanaeth blaen desg dwyieithog. Mae angen i'r Gymraeg fod yn iaith fyw yn y gweithle, ac yn arbennig mewn mannau cymdeithasu. Ond mae'n rhaid ategu hyn gyda rhaglen fydd yn cryfhau'r Gymraeg yn iaith lafar mewn nifer cynyddol o ganolfannau cymdeithasu, e.e. caffis, tafarnau, canolfannau siopa

- Rhaglen eang i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf
- Ei gwneud yn fwy amlwg lle mae modd defnyddio'r Gymraeg, a gyda phwy
- Gwobrwyo caffis ac ati am greu awyrgylch Gymraeg
- Ei gwneud yn arfer bod staff gwerthu a gweini'n defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf

## Cynllunio Defnydd Tir a Chartrefi

Mae angen gwneud yr hyn sy'n bosibl i sicrhau tai fforddiadwy i bobl leol, ac i beri nad yw'r system gynllunio'n milwrio yn erbyn siaradwyr Cymraeg.

- Y Gymraeg yn ystyriaeth hanfodol mewn cynllunio, gyda sylw i ddemograffeg a'r cyflenwad tai
- Pennu Ardaloedd â 25%+ o siaradwyr Cymraeg yn rhai ag Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig
- Sefydlu arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru
- Polisi tai Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai i roi blaenoriaeth i dai cymdeithasol sy'n gymorth i bobl leol a phobl ifanc aros yn eu hardal
- Lleihau'r nifer o ail dai a thai haf i sicrhau hyfywedd cymunedau gwledig
- Comisiynydd y Gymraeg i gael grym ymyrryd mewn ceisiadau cynllunio tai
- Blaenoriaethu tai i bobl leol, e.e. trwy ddefnyddio system bwyntiau

## Y Cyfryngau a diwylliant

Mae'r cyfryngau torfol a'r cyfryngau cymdeithasol yn feysydd sy'n fwyfwy dylanwadol.

Dylai'r cyfrifoldeb dros holl gyfryngau Cymru a phob math o ddarlledu yng Nghymru gael ei ddatganoli i Senedd Cymru cyn gynted ag y bo modd.

- Dylai S4C, BBC Cymru a Radio Cymru, yn ogystal â phob darlledwr masnachol a phob llwyfan cyfryngol newydd fod yn atebol i farn ddemocrataidd pobl Cymru drwy awdurdod cenedlaethol a sefydlir gan Senedd Cymru.

- Pryderwn fod rheolaeth ein sianel deledu genedlaethol yn or-ddibynnol ar hyn o bryd ar y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Ofnwn y gallai dibyniaeth S4C ar gyllid y BBC ddylanwadu'n anfwriadol ar gynnwys golygyddol rhaglenni S4C. Ofnwn hefyd fod dyfodol y BBC fel darlledwr cyhoeddus o dan fygythiad gwleidyddion San Steffan, ac y byddai lleihau ystod gwasanaethau'r Gorfforaeth yn tanseilio gwasanaeth cyhoeddus S4C i siaradwyr Cymraeg.
- Dylai'r gwasanaethau Saesneg-yn-bennaf gynyddu eu cynnwys Cymraeg a dwyieithog, fel bod y Gymraeg yn dod i glyw'r holl boblogaeth.
- Dyletswydd pob gwasanaeth a llwyfan sy'n cael y fraint o ddarlledu a chyfathrebu yn Gymraeg yw gwneud hynny mewn iaith lafar rywiog a naturiol
- Mae angen cynyddu'n sylweddol y defnydd o Gymraeg ar draws llwyfannau'r cyfryngau newydd, a chael y cwmnïau rhyngwladol masnachol i ehangu eu defnydd o Gymraeg i'r perwyl hwnnw. Dylai'r maes yma fod yn rhan o gyfrifoldeb S4C
- Mae angen cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i bobl ifanc ar y teledu a'r radio a'r cyfngau eraill.
- Mae angen sicrhau cefnogaeth ddigonol i'r sector creadigol, gan gynnwys cwmnïau theatr, canolfannau perfformio, corau a pherfformwyr Cymraeg.

## 5 Cywiror Diffygion

Mae dau gorff ar hyn o bryd yn gyfrifol ar y gwastad cenedlaethol am yrru polisi i'r Gymraeg.

### (i) Comisiynydd y Gymraeg

Mae gan y Comisiynydd gylch gorchwyl eang sy'n cynnwys hyrwyddo'r iaith. Ei brif swyddogaeth serch hynny fu ac yw cryfhau hawliau siaradwyr drwy weithredu'r system o safonau a sefydlwyd yn wreiddiol gan ddeddfwriaeth ym Mesur y Gymraeg a ddaeth i rym yn 2011. Mae'r modd y mae'r Comisiynydd a'i staff yn gweithredu'n adeiladol ac ar yr un pryd yn codi llais ynghylch diffygion polisi ac anghenion y Gymraeg i'w ganmol yn fawr.

### (ii) Is-adran y Gymraeg o fewn gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru (Prosiect 2050)

Yr is-adran hon a etifeddodd y cyfrifoldeb cyffredinol am gynllunio datblygiad yr Iaith wedi i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gael ei ddiddymu yn 2012.

Yn Awst 2017 cafodd yr is-adran ei hailfedyddio'n "Prosiect 2050" yn "Uned Cynllunio Ieithyddol Newydd...i yrru strategaeth Cymraeg 2050 yn ei blaen a chynyddu'r ffocws ar gynllunio ieithyddol o fewn Llywodraeth Cymru"<sup>1</sup>. Cyhoeddodd Gwenidog y Gymraeg, Eluned Morgan, y byddai pennaeth newydd yn cael ei benodi. Ym Mawrth, 2020, saith mis yn ddiweddarach, y cafodd y swydd ei hysbysebu. Mae'r disgrifiad swydd a oedd ynghlwm wrth yr hysbyseb yn dangos yn glir

- mai'r is-Adran hon, dan yr arweinydd newydd, sydd â'r cyfrifoldeb am arwain y gwaith o

gynllunio ieithyddol a gwireddu'r bwriad o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050

- bod "cynyddu'r defnydd [nid dim ond gwybodaeth] o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd" yn greiddiol i'r bwriad
- bod Llywodraeth Cymru'n wedi cofleidio'r angen am gynllunio cyfannol ar draws meysydd polisi ac adranau'r llywodraeth

Mae'r camau yma i'w croesawu.

Fodd bynnag, mae'r ffaith na fu unrhyw ddatganiad cyhoeddus ynghylch penodi Pennaeth Prosiect 2050, nac yn wir y pwyslais polisi y mae'r disgrifiad swydd yn ei fynegi, yn arwyddocaol iawn. Mae "is-Adran y Gymraeg", sy'n meddu yn awr ar gyfrifoldeb strategol o'r radd flaenaf, yn dal yn guddiedig yn ymysgaroedd y gwasanaeth sifil, o dan adain Grwp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

### **Os yw Prosiect 2050 i lwyddo, rhaid i hyn newid.**

Ciliodd y Llywodraeth yn ôl o'i bwriad gwreiddiol, a lanswyd gan Weinidog y Gymraeg Alun Davies yn 2017, i sefydlu Comisiwn y Gymraeg, corff hyd-braich i gymryd cyfrifoldeb am strategaeth i'r Gymraeg, yn dilyn protestiadau ynghylch tanseilio annibyniaeth y Comisiwn.

Mae DYFODOL I'R IAITH yn gadarn o blaid cadw swydd y Comisiynydd annibynnol i gyflawni'r dyletswyddau sydd ganddo ar hyn o bryd ac yn wir ychwanegu'r sector preifat a Chynllunio Gwlad a Thref i'w gylch gorchwyl.

Ynghylch gwaith yr Is-adran, fel y'i diffinir uchod, fe welwn ni ddau ddewis:



**(1) Y Dewis Gorau: Awdurdod neu Asiantaeth newydd**<sup>2</sup> yn gorff hyd-braich yn atebol i Lywodraeth Cymru. Dyma'r drefn yr ydym yn ei ffafrio. Byddai gan gorff felly broffil cyhoeddus amlwg, Prif Weithredydd a Bwrdd, a'r gallu i fod yn arloesol ac arbrolfod mewn ffordd nad yw'n arferol i'r gwasanaeth sifil.

**(2) Y Dewis ail-orau: Dyrchafu statws Prosiect 2050 yn uned ddylanwadol a phwerus** o fewn Llywodraeth Cymru. I fod yn effeithiol, byddai rhaid i uned felly

- Gael proffil cyhoeddus uchel a bod yn adnabyddus i'r cyhoedd yn ogystal ag yn atebol i Weinidog y Gymraeg yn y Llywodraeth
- Feddu ar arbenigedd o'r radd flaenaf mewn cynllunio ieithyddol
- Fod â phennaeth a fyddai'n sicrhau parhad a chysondeb hirdymor mewn strategaeth ac yn meddu ar y statws i'w alluogi i ddylanwadu ar bolisi ar draws holl adrannau'r Llywodraeth
- Fod yn rhydd i fentro, arloesi ac arbrolfi

Fe welwn ni'r opsiwn yma fel ateb tymor-byr. Dylid anelu yn y tymor canol, a chyn gynted â phosibl, at allanoli Prosiect 2050 yn gorff hyd-braich ar lun (1) uchod.

## 6 Trefniant y Dyfodol

Y canlynol yw'r ymrwymadau y mae DYFODOL I'R IAITH am i'r pleidiau gwleidyddol eu gwneud erbyn sefydlu llywodraeth newydd Cymru ym Mai 2021

**1 Dyrchafu rhag blaen statws Prosiect 2050 o fewn Llywodraeth Cymru ar y llinellau uchod, gan symud ymlaen cyn gynted â phosibl i sefydlu Awdurdod Iaith Hyd-braich**

**2 Diogelu swydd Comisiynydd y Gymraeg ac ychwanegu'r sector preifat a Chynllunio Gwlad a Thref at gylch ei gyfrifoldeb**

**3 Y Prif Weinidog newydd i draddodi araith gyhoeddus yn datgan y bydd Prosiect 2050 (y prosiect ei hun, hynny yw) yn cael lle amlwg ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth newydd ac yn egluro ystyr hyn o ran polisi cyhoeddus**

**4 Ymrwymiad i gefnogi'r Prosiect ag adnoddau ariannol sy'n gymesur â'r her ac i ddadansoddi'n glir yn sgil Cyllideb gyntaf y Llywodraeth newydd y symiau ariannol perthnasol**

**5 Sefydlu Arfor o'r newydd yn Asiantaeth Ddatblygu ar gyfer yr ardaloedd mwyaf Cymraeg, a chysylltu cryfhau'r Gymraeg â datblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y rhanbarth yn ganolog i'w orchwyl**

- **6 Sefydlu arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru ac Ardaloedd ag Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig er mwyn i'r Gymraeg ac anghenion pobl leol fod yn ystyriaeth hanfodol mewn cynllunio.**

### N o d i a d a u

1 Gw hysbyseb swydd pennaeth newydd yr is-adran Mawrth 16 2020

2 Gw bapur cynnig DYFODOL I'R IAITH *Asiantaeth y Gymraeg* Tachwedd 2016

TOOD  
DYFO

Am fanylion llawn am DYFODOL I'R IAITH,

ewch i'n gwefan:

**[www.dyfodol.net](http://www.dyfodol.net)**

neu cysylltwch trwy e-bostio

**[post@dyfodol.net](mailto:post@dyfodol.net)**